PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU

DYDD MERCHER, 5 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Mackie, Robson a/ac Weaver |

9 : YMDDIHEURIADAU (OS OES UNRHYW RAI)

Ni ddaeth dim i law.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

11 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

13 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

14 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ail-ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod ymgeiswyr 5, 7, 10 ac 11 wedi tynnu'n ôl.

Adolygodd y Pwyllgor y pedwar cais a chanfyddiadau'r ganolfan asesu.

PENDERFYNWYD: - bod

(1) Y Pwyllgor yn CYTUNO â chanfyddiadau'r Ganolfan Asesu na ellir penodi unrhyw un o'r ymgeiswyr.

(2) Swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151 yn cael ei hail-hysbysebu.

15 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o’r broses greu rhestr hir.

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD GWENER 14 MEDI 2018 AM 09:00AM